

YSGRIFENNU'R FRWYDR YN ERBYN ANGHYFIAWNDER

ARDDANGOSFA O DESTUNAU O GASGLIADAU ARBENNIG PCDDS i nodi 70 mlwyddiant 'Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol'

Gan fod diystyru a dirmygu hawliau dynol wedi arwain at weithredoedd barbaraidd sydd wedi rheibio cydwybod dynolryw, a chan fod dyfodiad byd, lle y gall pob unigolyn fwynhau rhyddid i lefaru ac i gredu a rhyddid rhag ofn ac angen, wedi ei cael ei ddatgan fel dyhead pennaf pobl gyffredin. DCHD, 10 Rhagfyr 1948

Y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol oedd un o brif orchestion y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd mewn ymateb i erchyllterau'r rhyfel hwnnw. Roedd gwlad 'wâr' a oedd wrth galon Ewrop 'wâr' wedi cyflawni gweithredoedd cwbl anwar yn erbyn ei phobl ei hun. Ymgais, felly, oedd y Datganiad i sicrhau amddiffyniad, gan nad oedd moesau nac arferion wedi bod yn ddigonol. Mae'r gosodiad mai 'dyhead pennaf pobl gyffredin' yw urddas a rhyddid yn hytrach na golud materol a budd unigol mor berthnasol nawr ag y bu bryd hynny. Heddiw, unwaith eto, gwelwn 'anwybyddu a dirmygu hawliau dynol [gan] arwain at weithredoedd barbaraidd' – ac mae'r llwybr cyfreithiol i atal y gweithredoedd barbaraidd hyn yn cael ei watwar heb unrhyw ddealltwriaeth fod iddo berthnasedd oesol. Ac nid gweithred ryfedd, anesboniadwy a wthiwyd ar y mwyafrif gan lond dwrn o leiafrif yw'r datganiad hawliau dynol, ond yn hytrach mae'n perthyn i hanes pobl gyffredin ac yn rhan o'r frwydr dros hawliau sy'n dyddio nôl i'r *Magna Carta* Gwelir rhan o'r hanes hwn yn Archifau Roderick Bowen yn Llambod, yn nhestunau a phamffledi ymfflamychol yr 17^{eg} a'r 18^{fed} ganrif, yn ogystal ag yn ysgrifau a dadleuon mwy rhesymegol ar ddechrau'r 19^{eg} ganrif. Mae'n holl bwysig ein bod yn parhau i gydnabod y brwydrau hyn, yn enwedig wrth i'r cof bylu am erledigaeth y Natsïaidd, ac wrth i'w naratifau gor-symbl, ynglŷn â phurdeb hanesyddol neu dynged cenedl, godi unwaith eto o'r cysgodion.

Un o'r rhai a heriodd y fath naratif gor-symbl oedd Walter Benjamin, Iddew Almaenig deallusol a laddodd ei hun ar y ffin rhwng Ffrainc a Sbaen wrth iddo wynebu cael ei yrru i un o wersylloedd angau'r Natsïaid. Yn yr ysgrif olaf o'i waith 'Theses ar Athroniaeth Hanes (Über den Begriff der Geschichte)' a gyhoeddwyd yn 1940 wedi iddo farw, dadleuai Benjamin fod deall 'traddodiad y gorthrymedig... yn dysgu i ni nad peth eithriadol yw'r "cyflwr o argyfwng" yr ydym yn byw ynddo, ond, yn hytrach, dyma yw'r arferol. I Benjamin, dim ond dehongliad hanesyddol sydd yn cydnabod y gwrthdaro mewnol, sydd yn gallu gwrthsefyll twf Ffasgaeth:

Daw cyfleon Ffasgaeth drwy'r ffaith fod ei wrthwynebwyr yn ei drin yn enw cynnydd fel norm hanesyddol. Nid yw rhyfeddu fod y pethau hynny yr ydym yn eu profi 'yn dal i fod yn bosib o hyd' yn yr ugeinfed ganrif yn athronyddol. Nid dechrau dealltwriaeth yw hyn, ag eithrio deall nad ellir cynnal y syniad o hanes sy'n achosi'r rhyfeddod.

- 'Theses ar Athroniaeth Hanes (Über den Begriff der Geschichte) VIII.

Mae lleisiau niferus yr arddangosfa hon yn tystiolaethu fod y 'cyflwr o argyfwng' yn un parhaus. Yn 1648, mae un ohonynt yn gwrthdystio yn erbyn arestio a charcharu Aelodau Seneddol gan y fyddin yng nghyfnod dienyddio'r Brenin Siarl Iaf, wrth i chwyldro'r Piwritaniaid droi'n chwerw. Mae llais arall yn cofnodi gweledigaeth Anna Trapnel, proffwydes o blith y Bumed Frenhiniaeth a oedd yn

dadlennu, ym 1653, rai o ddadleuon sectaraidd tymhestlog y blynyddoedd dilynol. Syrthiodd Trapnel i berlewylg am ddeuddeg diwrnod gan ddatgan fod y byd yn dod i ben ac fod y Meseia ar ddychwel. Yng Nghymru, yn yr un cyfnod roedd Morgan Llwyd, yr awdur Piwritanaidd dylanwadol yn perthyn i'r un symudiad.

Yn ystod y 17eg ganrif gwelwyd rhyfel cartref gwaedlyd, dymchwel y frenhiniaeth, sefydlu gweriniaeth, dychwelyd y brenin, sefydlu brenhiniaeth gyfansoddiadol, diorseddu brenin arall - a'r cyfan o fewn hanner canrif. Nid oedd fawr mwy o sefydlogrwydd yn perthyn i'r 18fed ganrif. Newidiwyd trefn y byd gan ddau chwyldro sylweddol, yn Ffrainc ac yn yr Amerig; bu rhyfel Ewropeaidd a datganiadau hawliau dynol gan sylwebwyr gwleidyddol fel Mary Wollstonecraft, Tom Paine, Jac Glan y Gors, Iolo Morgannwg a Samuel Roberts yn rhagflaenu canrif arall o anfodlonrwydd. Newidiodd craidd y drafodaeth: o hawliau oddi wrth Dduw i iawnderau a dynoliaeth gyffredin y bobl. Ac yn sgil hyn, daeth caethwasiaeth yn ganolbwynt i'r ddatl. I ddechrau, roedd y testunau gwleidyddol yn mynegi dichter fod bodau dynol yn cael eu troi yn nwyddau ond erbyn 1791 roedd syniadau'r Chwyldro Ffrengig wedi cyrraedd caethweision Sant Domingo ac fe arweiniodd hynny at Wrthryfel Haiti. Yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Gwrthryfel, gwelir amodau byw dychrynlyd y caethweision. Clywir llais y caethwas yn gliriach fyth yn hunangofiant The interesting narrative of the life of Olaudah Equiano, or Gustavus Vassa, the African o'r un flwyddyn 1792. Mae Equiano yn cofnodi ei brofiad ei hun o gael ei gipio o Affrica a'i droi'n gaethwas. Mae'n adrodd erchyllterau'r llongddrylliad yn y Bahamas ym 1767 gyda'r cargo dynol yn gaeth yn y llong gaethweision.

Dyma gyfnod ble roedd athronwyr ac gwyddonwyr gwleidyddiaeth yn dadlau dros gydraddoldeb yn ogystal. Dyma ddwy enghraifft: yn An introduction to the principles of morals and legislation (1789) sylfaenodd Jeremy Bentham hyn ar gyd-ddioddefaint dynol; bron i ganrif yn ddiweddarach, dadleuodd John Stuart Mill yn erbyn The Subjection of Women. Yn y cyfamser, dramateiddwyd yr angen dynol hwnnw am gariad ac am gyfeillgarwch, a fynegwyd ynghynt gan Shakespeare, mewn nofelau fel Frankenstein (1818) gan Mary Shelley. Cafwyd ymatebion creadigol wrth i brotestiadau yn erbyn y Deddfau Yd o 1815 ymlaen fygwth sefydlogrwydd y wladwriaeth. O'r persbectif hwn, gellir gweld fod gwaith ceidwadol Walter Scott Ivanhoe (1819) yn dargyfeirio sylw oddi wrth y gwrthdaro rhwng dosbarthiadau cymdeithasol tuag at agenda genedlaetholgar, drwy gyflwyno hanes y Sacsoniaid yn brwydro yn erbyn eu gorthrymwyr Ffrengig-Normanaid. Yn yr un flwyddyn, dadleuodd year Percy Bysshe Shelley am newid gwleidyddol radical yn dilyn cyflafan protestwyr heddychlon yn Peterloo. Galwodd Masque of Anarchy am wrthdystiad torfol heddychlon er mwyn mynnu bod hawliau cyfredol yn cael eu gweithredu – ond ni feiddiodd unrhyw un gyhoeddi'r gwaith, rhag cael eu cyhuddo o annog gwrthryfel. Yn 1831, gwelwyd Terfysgoedd Merthyr Tudful yn codi o amodau byw annheg i weithwyr y diwydiant haearn ac fe arweiniodd hyn at ddienyddio Dic Penderyn gan yr awdurdodau. Yna, yn 1838 daeth gwrthdystiadau Mudiad y Siartwyr i Gasnewydd o dan arweiniad Robert Frost gan fynnu Siarter y Bobl.

Nid yw testunau'r arddangosfa hon yn dangos hanes sydd yn mynd a ni ar daith gynyddol, o gyfnodau llai gwaraidd tuag at gyfnodau mwy gwaraidd. Yn wir, hanes cymhleth sydd yn llawn gwrthdaro ac anghyfiawnder a welir ynddynt, ynghyd â galwadau parhaus am newid gwleidyddol. Gwelir galwadau am yr hyn a elwid yn 'enedigaeth-fraint' genedlaethol; hawliau yn llygad y gyfraith. Mae'r pamffledi brau sydd ar arddangos yma yn atgof clir o'r dadlau ffyrnig a fu yn y cyfnod – o blaid ac yn erbyn. Er gwaethaf fod y papur wedi treulio dros y blynyddoedd – ac yn wir efallai oherwydd hynny hefyd – mae'r pamffledi'n cyfleu gorffennol byw, yn llawn galwadau a brwydrau a fu'n braenaru'r tir i'n brwydrau ninnau heddiw.

Nid yw'n fawr o syndod fod gwrthod y gorffennol yn nodweddu cyfundrefnau totalitaraidd yn y byd go iawn ynghyd â'r rhai mewn ffuglen. Yn Nineteen Eighty-Four fel yn realiti'r Undeb Sofietaidd, caiff

hanes ei adolygu a'i ailysgrifennu yn unol â galwadau cyfnewidiol y Blaid; yn BNW gan Aldous Huxley mae'n rhaid niwtraleiddio gwahaniaethau'r gorffennol ac, o ganlyniad, caiff hanes ei wfftio – History is Bunk. Dyma pam fod y papurau darniog hyn sydd yn tystiolaethu i frwydrau'r gorffennol mor werthfawr. Fel nododd Benjamin, 'mae pob delwedd o'r gorffennol na chaiff ei hadnabod gan y presennol fel un sydd yn perthyn iddo yn bygwth diflannu am byth' (Theses V)

Mae'r *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* yn codeiddio'r angen dynol am barch ac am urddas yn sgil hil-laddiad. Bron i 350 o flynyddoedd ynghynt, dramateiddiodd Shakespeare ofynion tebyg ym *Marsiandwr Fenis* ac yr oedd yr un mor ymwybodol fod sarhau a dirmyg parhaus yn bwydo galwad diddiwedd i ddial:

Am mai Iddew ydwyf. Onid oes gan Iddew lygaid? Onid oes gan Iddew ddwylo, aelodau, synhwyrâu, teimladau a nwydau? Onis porthir ag ymborth, onis clwyfir ag arfau, onis poenir gan afiechyd, onis iacheir â moddion, onis cynhesir ac onis oerir gan haf a gaeaf – yr un ffunud â Christian? Os clwyfwch-ni, oni waedwn? Os ogleisiwch-ni oni chwarddwn? Os rhowch wenwyn i ni oni threngwn? Ac os gwnewch gam â ni, onis dialwn? Os ydym debyg ichwi ym mhopeth arall, byddwn debyg ichwi yn hynny.

Marsiandwr Fenis, cyfieithiad J.T. Jones o *The Merchant of Venice*, William Shakespeare.

**mae'r testunau wedi eu tanlinellu yn rhan o'r arddangosfa*



www.uwtsd.ac.uk/library



@UWTSDlib



library@uwtsd.ac.uk